# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-05-10)

**Dyddiad: 11 Chwefror 2010**
**Amser: 13:00 – 15:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mike German, Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

John Lloyd Jones, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Roger Thomas, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

### Eitem 1: Ethol cadeirydd newydd

1.1Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd. Enwebwyd Mike German ac etholwyd ef.

### Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Irene James a Karen Sinclair.

### Eitem 3: Ethol Aelod newydd i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer bod yn aelod o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Enwebwyd Mike German i fod yn aelod o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ac etholwyd ef.

### Eitem 4: Craffu ar Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad : Cyngor Cefn Gwlad Cymru

4.1 Croesawodd y Cadeirydd John Lloyd Jones a Roger Thomas i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i gynnig eu sylwadau agoriadol. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

4.2 Cytunodd y tystion i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn :

Diffinio costau cynnal a chostau'r rhaglenni a ddefnyddir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru;

Y gyfran o weithgareddau Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n cael eu harwain  gan agenda'r Llywodraeth yn hytrach na chan ddyletswydd statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

Y meysydd lle mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n gweithio'n agos ag asiantaethau eraill a lle mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn credu y gallant weithio'n agosach ag asiantaethau eraill;

Yn unol â pha ddangosyddion o fewn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n gweithio?